Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ar ddydd Mercher, Rhagfyr 13eg, 2006 am 7.30 p.m.

Presennol: Y Maer Cyng Hugh Towns, Dirprwy Faer Cyng Richard Wallace, Cyng Ros Bellamy, Cyng Pam Steane Price, Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Colin Jenkins, Cyng Dawn Wallace, Cyng Edward Thomas, Cyng Roy Davies.
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr. Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr. Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Cyng Fran Murphy

Materion yr Heddlu
Adroddodd PC Vernon Thomas mai dim ond un drosedd sydd wedi'i chofnodi hyd yn hyn ym mis Rhagfyr.

Cof 137/ Rhagfyr / 06 Cofnodion Blaenorol
Cymeradwywyd ac arwyddwyd Cofnodion o'r cyfarfod Llawn a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir, ar ddydd Mercher, 22ain Tachwedd, 2006 fel rhai cywir gan gynnwys y newidiadau canlynol:-
Newid Cof 131 i gynnwys eitem Cyfleoedd Cyfartal (Cof 131/Tachwedd / 06 Cyfleoedd Cyfartal)
Newid Cof 132 i gynnwys eitem ar Ddiweddaru'r Wefan (Cof 132 /Tachwedd / 06 Diweddaru'r Wefan)
Newid Cof 131 Gohebiaeth i'w Ystyried i Cof 133/ Tachwedd/ 06
Newid Cof 132 Gohebiaeth er gwybodaeth i Cof 134/ Tachwedd / 06
Newid Cof 133 Mater o Fusnes a ganiateir gan y Gadair i Cof 135 / Tachwedd/ 06
Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.
Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion o gyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ar ddydd Mercher 6ed Rhagfyr, 2006 fel rhai cywir. Cynigiwyd gan y Cyng Pam Steane Price ac eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid.

Cof 138 / Rhagfyr / 06 Adroddiad y Cynghorydd Sir
Adroddodd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones ei fod wedi siarad â Mr John McAvoy, Rheolwr Traffig CSC sydd wedi addo y bydd y llinellau dwbl melyn yn cael eu rhoi yn ôl ar gornel ffordd Maes Mwyn. Adroddodd y Cynghorydd Sir Jones fod Mr Dave Gilbert yn edrych i weld

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

a fyddai'n bosib datrys problem parcio'r Cawdor trwy roi maes parcio dros dro. Enwebwyd y Cyng Richard Wallace i fynychu cyfarfod gyda Mr McAvoy ar Ionawr 3ydd, yn benodol er mwyn edrych ar Adeiladau'r Banc.
Gofynodd y Swyddog Technegol i'r Cynghorydd Sir ofyn i'r Cyngor Sir i ystyried gosod mesh wifren ar y llwybr troed sy'n mynd ar draws y bont siglo er mwyn atal unrhyw ddamweiniau posib rhag digwydd mewn amgylchiadau gwlyb.

Cof 139/ Rhagfyr/ 06 Materion yn Codi o gyfarfodydd Blaenorol

Yn dilyn trafodaeth gyda Chynghorydd Sir Ieuan Jones, gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr at Mr Trevor Sage, CSC yn nodi fod gwrthod caniatáu mannau llwytho/dadlwytho gan gynnwys man parcio'r anabl y tu allan i'r Neuadd Ddinesig, yn amharu'n ddifrifol ar y defnydd a wneir o'r Neuadd, yn arbennig i'r anabl.
Roedd pawb o blaid.

Cof 140/ Rhagfyr / 06 Materion Ariannol.

1. Archebiant ar gyfer 2007-8
   Cytunwyd yn unfrydol ar yr archebiant a argymhellir gan y Pwyllgor Cyllid am £47,674, cynnydd o 3% ar y llynedd

2. Anfonebau i'w Talu

Un Llais Cymru (adnewyddu aelodaeth flynyddol)	£	196.00
Chwyn laddwr ar gyfer yr Ardd Gymunedol	£	42.30
Anfoneb Regan Norris ar gyfer Prosiect Meirion Howells	£	440.63
Gwaith gan Kingsbury Electrical ar Neuadd y Sir	£	108.83

   Cynigiodd y Cyng Ros Bellamy eu bod yn cael eu talu, eiliwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn. Roedd pawb o blaid.
   Cytunwyd y dylai'r Clerc ffonio Regan Norris er mwyn esbonio y bydd anfoneb David Siggery (3ydd taliad Neuadd y Sir) am £ 20,801.32 yn cael ei dalu cyn gynted ag y bydd y grant yn cael ei dderbyn. Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan y Cyng Colin Jenkins

3. Materion Ariannol Eraill
   Dyma enillwyr y gystadleuaeth ffenestr Nadolig :-
   Peppercorn £ 50
   Cutting Edge £ 30
   Touch of Class £ 20
   Cytunwyd y dylid rhoi'r rhoddion canlynol fel diolch am eu help naill ai gyda'r arddangosfa Tân Gwyllt neu wrth gynnau'r goleuadau Nadolig,
   Round Table £ 100
   Ladies Circle £ 50
   Ambiwlans St. Ioan £ 50
   Band Ysgol Tre-gib £ 100
   Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

4. Enwebwyd y Cyng Edward Thomas i lanw'r holiadur ymgynghori a anfonwyd gan CSC mewn perthynas â blaenoriaethau'r gyllideb.

Cof 140 / Rhagfyr / 06 Materion Cynllunio

1. Cynllunio i'w Ystyried

i) E/13578 2, Red Cottage, Heol Caerfyrddin
- gwrthod gan ei fod y tu allan i derfynau Tref Llandeilo

ii) Apêl Cynllunio / Adran 78/174. Apêl gan Jones a Llewellyn
Gwrthodwyd yr apêl gan LlCC oherwydd bod y cais gwreiddiol ar gyfer dibenion storio yn unig.

Cof 141 / Rhagfyr / 06 Trafnidiaeth a Goleuadau

Cynigiodd y Cyng Colin Jenkins fod y Clerc yn ysgrifennu at CSC yn gofyn pam nad oes Arhosfan Bws wedi'i roi yn ôl y tu allan i'r Eglwys. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Edward Thomas.

Cof 142 / Rhagfyr / 06 Adroddiad y Maer

Roedd y Maer y Cyng Hugh Towns wedi darparu rhestr ysgrifenedig o'r holl gyfarfodydd a digwyddiadau yr oedd wedi'u mynychu ar ran y Cyngor dros y mis a aeth heibio. Bydd y rhain yn cael eu cynnwys ar wefan y Cyngor.

Cof 143 / Rhagfyr / 06 Prosiect Treftadaeth.

Wnaeth yr is grŵp sy'n cynnwys y Maer Cyng Hugh Towns a'r Cyng Roy Davies, gwrdd â Mr Gwilym Hughes mewn perthynas â threfnu digwyddiad er mwyn dathlu cwblhau'r Llwybr Treftadaeth ac adnewyddu Neuadd y Sir.
Y dyddiadau a gynigir yw dydd Gwener, Chwefror 9fed a dydd Sadwrn, Chwefror 10fed.
Byddai Cambria yn rhan o hyn gan roi cyhoeddusrwydd i'w Archif HER er mwyn i bobl y dref fod yn ymwybodol ei fod ar gael yn yr adeilad. Trwy wahoddiad yn unig y byddai'r digwyddiad ar y dydd Gwener gyda rhyw 40 o bobl â chyfres o gyflwyniadau ar y Llwybr a gwaith Cambria. Estynnir gwahoddiad i un unigolyn o bob mudiad lleol ynghyd â'r AC lleol a'r Cynghorydd Sir.
Cynhelir diwrnod agored ar y dydd Sadwrn ac fe fyddai'r Cynghorwyr yn ymuno gydag ymwelwyr ar y Daith. Awgrymwyd y dylid dangos y rhaglen deledu ITV ddiweddar ar Landeilo yn ystod y diwrnod.
Bydd y Cyng Ros Bellamy yn llunio taflen ddrafft erbyn y cyfarfod nesaf.
Roedd pawb o blaid y trefniadau.

Cof 144/ Rhagfyr/ 06 Prosiect Neuadd y Sir

Adroddodd y Cyng Ieuan Gwyn fod y gwaith bron a'i gwblhau. Roedd rhywfaint o oedi wedi bod ar wneud y gwaith plastr ar y tu allan o achos y tywydd garw ond fe ddylai'r gwaith gael ei gwblhau erbyn 27ain Ionawr. Cyflwynwyd adroddiad ar gyllideb y prosiect.

Cof 145/ Rhagfyr / 06 Prosiect yr Ardd Gymunedol

Roedd y Cyng Fran Murphy wedi llunio adroddiad ysgrifenedig ar y cynnydd a wnaed ar ddod o hyd i amcangyfrifon o gostau o sefydlogi'r clawdd a'r teras, cyflwynwyd yr adroddiad gan y

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

Cyng Pam Steane Price yn absenoldeb Cyng Murphy. Mae ymdrechion i ddod o hyd i ddyfynbrisiau eraill ar waith. Gofynnwyd i'r tîm prosiect i ofyn i'r Swyddog Technegol fynychu'r safle pan fo contractwyr yn ymweld â'r safle i roi cyngor proffesiynol.

Cof 146 / Rhagfyr / 06 Adroddiad yr Isgrŵp Iechyd.

Dosbarthwyd nodiadau gan y Cyng Charlotte Leadbeater ar y gwasanaethau a ddarperir gan feddygfa Llandeilo. Gwahoddwyd y Cynghorwyr gan Dr Lewis i gyfarfod/ymweliad â'r feddygfa ar Ionawr 24ain, am 6.30pm. Gobeithir y bydd cymaint â phosib yn gallu mynychu.

Cof 147 / Rhagfyr / 06 Diweddaru'r Wefan

Dywedodd y Cyng Pam Steane Price a'r Cyng Charlotte Leadbeater eu bod am ymddiswyddo o'r gweithgor oherwydd pwysau ymrwymiadau eraill. Cynigiwyd pleidlais o ddiolch i'r ddwy gan y Cyng Roy Davies am eu gwaith dilys yn datblygu'r wefan. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Edward Thomas. Mynegwyd pryder gan y Cyng Pam Steane Price fod pethau'n hwyr iawn yn cael eu rhoi ar y safle yn ystod mis Rhagfyr. Trafodir y wefan ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

Cof 148 / Rhagfyr / 06 Adroddiad y Swyddog Technegol.

Derbyniwyd gohebiaeth gan Caroline Ferguson mewn perthynas â llwybr troed Glynceirch, yn nodi mai'r Cyngor Sir sy'n gyfrifol am wyneb hawliau tramwy ac y byddai'n edrych arno cyn bo hir. Fel arfer mae angen cyfraniad o £1100 gan y perchennog tir er mwyn gwyro'r llwybr troed.

Dywedodd y Swyddog Technegol fod y perchennog tir wedi gwneud rhywfaint o waith i'r rheilins sydd ar hyd llwybr troed Glynceirch, sydd bellach mewn cyflwr diogel.

Cof 149 / Rhagfyr / 06 Tendro ar gyfer gwelliannau arfaethedig i gwrt blaen Neuadd y Sir.

Cafwyd trafodaeth ar y broses dendro. Awgrymodd y Swyddog Technegol y dylid nodi proses dendro newydd. Awgrymodd y Cyng Ieuan Gwyn y dylid gadael y tendro ar gyfer y gwaith hwn tan y Gwanwyn gan gyflwyno manylion newydd ar gyfer deunyddiau addas fel sydd yn ofynnol mewn ardal gadwraeth. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Colin Jenkins. Roedd pawb o blaid. Bydd y contractwyr sydd wedi cyflwyno dyfynbrisiau yn cael gwybod.

Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn y dylid gohirio Rheol Sefydlog Rhif 6 am 20 munud er mwyn caniatáu amser i orffen y cyfarfod. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Colin Jenkins.

Cof 150/ Rhagfyr / 06 Gohebiaeth i'w ystyried

1. Adroddiad rheoli traffig a anfonwyd gan Weithgor Ffordd Osgoi Tywi 'Tbag'. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei ddangos i Mr Chandler, LlCC, yn ystod y cyfarfod gyda'r Maer ar fesurau arafu traffig.
2. Ymateb Heddlu Dyfed Powys i gwynion a anfonwyd at y Cyngor mewn perthynas ag ymatebion gwael i alwadau ffôn. Wnaeth Mr Ian Reynolds wahodd aelodau i ymweld â'r ganolfan newydd ym Mhencadlys yr Heddlu. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu i ddiolch am y gwahoddiad ac y byddai aelodau yn manteisio arno yn y dyfodol.
3. Ymateb Mr Gwilym Hughes i'r cwynion a wnaed gan aelodau i gyflwr Siambr y Cyngor. Derbyniwyd ei resymau.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

4. Prosiect Tywi Afon yr Oesoedd Project. Cynnig gan Eleri Davies i annerch aelodau ar y prosiect. Cytunwyd y dylid gwneud hyn cyn cyfarfod Llawn o'r Cyngor ym mis Chwefror.

Cof 151/ Rhagfyr 06 Gohebiaeth er gwybodaeth

Nodwyd y canlynol:

1. Llythyr o ddiolch oddi wrth Arwyn Evans am y rhodd i Apêl Eisteddfod yr Urdd.
2. Chwiliadau y Fforwm Partner WWEC
3. Adroddiad ar Gynnydd y Rhwydwaith Cymunedol
4. Cyfarfod Rhwydwaith Cymunedol Tywi wedi'i ohirio tan Chwefror 2007.
5. FCFCG – Bwletin
6. Rhybudd o newid oriau yn Swyddfa Gynllunio Caerfyrddin.

Cof 152 / Rhagfyr / 06 Unrhyw fater arall sydd oherwydd amgylchiadau arbennig ym marn y Cadeirydd yn haeddu sylw brys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Cynigiwyd pleidlais o ddiolch i'r Maer gan y Cyng Charlotte Leadbeater am drefnu'r Bwffe Nadolig. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Colin Jenkins.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.40 p.m.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk